Rhifyn Mawrth heb y clawr_Layout 1  01/03/2019  10:26  Page 1


# YR ANGOR

PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION

'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'

CYF. 40. RHIF 10 MAWRTH 2019 50c


# NEWYDDION

# CODI A GOFAL CALON




*Aelodau o Undeb Gorawl Lerpwl, Capel Bethel, Dosbarth Cymraeg a noddwyr peiriant y galon. Enillodd deg ohonynt dystysgrifau ar gwblhau y tasgau*



*Brian a Hilda Thomas o flaen y diffibriliwr wrth ddrws y ganolfan*



*Mark King o Oliver King Foundation yn egluro sut y defnyddir y diffibriliwr*



*Eglwys Princes Road (gweler tud 8)*

*Lluniau gan John G. Williams*

Rhifyn Mawrth heb y clawr_Layout 1 01/03/2019 10:26 Page 2

Golygyddol

# Cofio Gŵyl Ddewi eleni eto

**- gan D. Ben Rees**

Lluniwyd nifer dda o golofnau golygyddol ar thema Gŵyl Ddewi yn *Yr Angor* dros y blynyddoedd gan fod yr Ŵyl yn dal i olygu cymaint inni'r Cymry alltud ym Manceinion a Glannau Mersi. Daw imi dri gair y tro hwn, a phob gair yn dechrau gyda'r un lythyren sef C. Ffordd dda i gofio.

**(1) COFIO DDOE.**

Bob tro y byddaf yn meddwl am genedl y Cymry ac yn wir Cymry Lerpwl neu Cymry Sir y Fflint neu unrhyw dalgyrch arall byddaf yn meddwl am ddynion a merched galluog, ymroddedig a wnaeth gymaint mewn gwahanol feysydd. Cawsom ein bendithio ers dyddiau Taliesin gyda gwŷr amryddawn, doeth a diwyd mewn gwahanol feysydd. Gallwn lenwi rhifyn cyfan o'r *Angor* wrth ddweud gair byr am hanner cant ohonynt, beirdd, llenorion, cyhoeddwyr, ysgolheigion, pêl-droedwyr, arweinwyr cymdeithasau, meddygon, cerflunwyr, amaethwyr, haneswyr ac ati.

**(2) CYFEIRIO'N CAMRE.**

Ni all pawb ohonom fod yn y categori Cofio ac ni ddymuna y rhelyw, ond gall pob un ohonom ar Ŵyl Ddewi ddilyn ein Nawddsant fel Cymro cadarn, Cristion tanbaid a Chenhadwr ffyddlon. Gwasanaethwn ein cenedl wrth siarad ein hiaith, prynu'r papur bro, cefnogi cymdeithasau sydd yn cynrychioli ein Cymreictod. Gall pob un ohonom wneud ein cyfraniad pwysig, parhaol gyda'n gilydd

**(3) CYSEGRU EIN BYWYDAU.**

Wrth sôn am holl anturiaethau o eiddo Dewi Sant sylweddolwn ei fod ef, uwchlaw pob dim, am gyflawni gweithredoedd da, ennill pobl i'r bywyd Cymreig, a chyflwyno y ffydd Cristnogol. Byddai'n cytuno pob gair ag arwyddair Urdd Gobaith Cymru, o fod yn ffyddlon i Gymru, i gyd-ddyn ac i Grist. Os am wasanaethu Crëwr y genedl trwy wasanaethu'r genedl honno, rhaid cysegru pob gallu, pob dawn, pob talent a phopeth gwerthfawr a brisir gennym i'r dasg anfarwol honno. Mae galwad arbennig arnom bob Gŵyl Ddewi i gofio, i gyfeirio'n camre i'r byd Cymreig, ac i gysegru ein hamser i adnewyddu'r cyfamod.

***Minnau yn awr, galwaf ar fy nghyfeillion,***
***Cyffredin ac ysgolhaig,***
***Deuwch ataf fi i'r adwy,***
***Sefwch gyda ni yn y bwlch,***
***Fel y cadwer i'r oesoedd a ddêl***
***y glendid a fu.***


# CYNGERDD / CONCERT

## Côr Cymry Lerpwl/Liverpool Welsh Choral

**ar/on**

**Mawrth 30ain / March 30th, 2019 am/at 7.30 pm**

**yn/at**

**Neuadd Fawr / The Great Hall, The Cornerstone**
**Liverpool Hope University. L6 1HP**

## Rossini: Petite Messe Solennelle

**ac / and works gan / by Verdi and Mozart**
**Arweinydd/Conductor: Keith Orrell.**
**THREE ACCOMPANISTS AND FOUR SOLOISTS**

***Ticedi/Tickets £15.00 gan / from Mavis Owens 0151 652 6374***
***email:lwcrickets@gmail.com aelodau'r côr / choir members a/and***
***https://sales.webticketmanager.com/liverpoolwelshchoral***

LIVERPOOL WELSH CHORAL
PATRON: KARL JENKINS CBE



CYMRAEG

***Ariennir Yr Angor yn rhannol gan Lywodraeth Cymru***

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor yr Angor, Heathfield Road, Lerpwl 15.*
*Cysodwyd ac argraffwyd gan Aeron Jones, Ty'n y Cefn, Llanuwchllyn 07729 960484*



**Cysylltwch â'r Angor**
**dbenrees@gmail.com**


YR ANGOR
PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION
'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'

Rhifyn Mawrth heb y clawr_Layout 1 01/03/2019 10:26 Page 3

*YSGRIF GOFFA:*

# Mrs ENID JOYCE LEWINGTON
## Wavertree, Lerpwl
## (1936-2019)

**Brawychwyd Cymry De Lerpwl o glywed am ymadawiad sydyn Mrs Enid Joyce Lewington yn ei chartref yn Pagefield Road, Wavertree ar nos Wener, Ionawr 25. Adnabyddid hi gan gylch eang a bu yn hynod o weithgar, tan yr wyth mlynedd diwethaf, pryd y bu yn gaethiwus i'w chartref clyd, a derbyniodd ofal nodedig ei hunig ferch Ruth â chydymdeimlir yn fawr â hi yn y brofedigaeth a'r hiraeth.**

**Ganwyd Joyce a'i chwaer Delyth (efeilliaid) ar 4 Medi 1936 yn Llwyngwril i Griffith ac Anwyl Williams. Yr oeddynt yn deulu o bump o blant, Richard John, Megan, Hefin, Joyce a Delyth. Cawsant fel teulu brofedigaeth mawr pan foddwyd Hefin yn y môr ac yntau ond yn ddeg mlwydd oed. Byddai'n sôn yn aml wrthym ni am hynny, y golled a'r siom.**

**Cefais y fraint o adnabod Megan a byddai'n ffonio yn achlysurol o Stafford gan ei bod yn falch o glywed rhaglenni Cymraeg ar Radio Cymru, ac yn arbennig Oedfa'r Bore. Roedd ei mam yn wraig hynod o ddefosiynol, a chofiaf yn dda pan symudodd Mrs Anwyl Williams at Joyce a Fred Lewington a dod yn rhan o deulu Capel Heathfield Road.**

**Bu chwaer iddi, Margaret Rowland yn genhades yn Sylhet. Penderfynodd yn 23 mlwydd oed mynd yn genhades o dan nawdd Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Hwyliodd ar fwrdd llong 'City of Manchester' (7 Ionawr 1930) i'r India. Oherwydd y gwres mawr a chyflwr ei iechyd bu'n rhaid iddi ddychwelyd mewn tair blynedd a dod yn ôl i weithio i Lerpwl, i Genhadaeth Earle Street ac ar ôl hynny gyda Chymdeithas y Plant yn Copperas Hill cyn symud i Langefni yn 1940. Felly yr oedd Lerpwl yn golygu llawer i Joyce a Delyth ac yn un ar bymtheg oed dyma'r ddwy yn symud i Lerpwl i gael hyfforddiant yn Ysbyty Newsham Park. Bu hi yn nyrs ymroddedig mewn mwy nag un Ysbyty yn Lerpwl. Gwasanaethodd yn gydwybodol Ysbyty Alder Hey ac Ysbyty Frenhinol Lerpwl.**

**Yn gweithio yn yr ysbyty, y cyfarfu â Fred Lewington, cymeriad hoffus a hwyliog, a phriododd y ddau gan fwynhau bywyd priodasol. Bu marwolaeth sydyn Fred yn 2005 yn ergyd drom iddi ond ymwrolodd a gwneud ei gorau glas.**

**Meddai ar lais cyfoethog fel soprano, hi a Delyth, a byddai'r ddwy yn falch o'r cyfle o gael ymuno ym moliant y cysegr. Cysegrodd ei amser a'i doniau i waith yr Eglwys a bu yn hynod o weithgar a pharod ei chymwynas. Ymunodd yn y Côr ac yn y gyfrol *Codi Stêm a Hwyl yn Lerpwl* mae llun da ohoni a phedair eraill yn disgwyl llond bws o Gymry oedd ar bererindod, o dan fy ngofal yn Lerpwl. Bodlonai wasanaethu ym mhob ryw fodd. Bu am flynyddoedd yn paratoi Bwrdd y Cymun, o fis i fis, hi a Rhiannon Williams (Karslake), Gwen Jones, Muriel Edwards a hithau.**

**Rhoddodd flynyddoedd yn y gwaith cenhadol y chwiorydd, a hefyd ar Bwyllgor Ystadegaeth. Etholwyd hi a Mair Powell, Roderick Owen, Dr. Pat Williams yr adeg honno. Bu dirywiad yn ei iechyd yn y ddegawd diwethaf yn gyfrifol am inni golli ei chwmni a'i llais o'r oedfaon. Gwerthfawrogai pob ymweliad a chael derbyn *Y Rhwyd*. Am flynyddoedd bu ganddi gylch lle y rhannai y Cylchlythyr i aelodau o'n heglwys oedd yn byw yn y strydoedd o amgylch parc Wavertree. Bu ei diweddar briod Fred yn gefnogol iawn iddi, a chofiaf ofyn iddo fod yn Siôn Corn inni fel capel, a gwnaeth ei waith gyda bywiogrwydd. Nid oedd y plant hynaf yn medru rhoddi enw ar y Siôn Corn hwn fel y gwnaed a rhai o'i ragflaenwyr.**

**Bu Joyce yn barod iawn i gefnogi ac yn gwerthfawrogi'n gywur iawn weinidogaeth y Gair. Byddai'n anfon ar dro ddarn o homili neu o fyfyrdod trwy'r post. Felly y byddai ei mam. Gwraig garedig a haelionus. Hi a roddodd i'n capel y sustem meic yn y pulpud.**

**Bu'r cynhebrwng ar bnawn Gwener, 8 Chwefror yn Amlosgfa Springwood o dan fy ngofal. Canwyd emyn Pantycelyn a chlywyd teyrnged ar ran y teulu gan Eric Morris. Gweddïwn y caiff Delyth a'i theulu yn Skelmersdale, ei merch Ruth a'r holl deulu gysur a gobaith yn y brofedigaeth lem. Gweddïwn y bydd Duw yn noddfa ac yn nerth iddynt yn y blynyddoedd sydd i ddod. Gellid dweud am Joyce – 'tyrd i ymuno yn llawenydd dy Arglwydd'.**

**D. Ben Rees**

# CORNEL Y TRYSORYDD
## CHWEFROR 2019



| | |
|---|---|
| Mrs Undeg Cole, Abertawe | £11.00 |
| Mrs Beryl Jones, Welwyn Grd.City | £100.00 |
| Mr Gareth Lewis Jones, Graigfechan | £20.00 |
| Cymdeithas Gymraeg Manceinion | £150.00 |
| Mr Simon Chandler, Prestwich | £12.00 |
| Mrs Rhiannon Liddell, Wavertree | £25.00 |
| Miss Hilda Lloyd, Rainhill | £25.00 |
| Mr a Mrs Roderick Owen, Allerton | £90.00 |
| Mrs Marged a Norman Tee, Bala | £10.00 |
| Mrs Elizabeth Owen, Halewood | £20.00 |
| Mrs Gwenda Roberts, Bae Colwyn | £25.00 |

**Cyfanswm £488.00**

**Roderick Owen (Trysorydd)**

*Newyddion o*

# LANNAU MERSI A MANCEINION

## Eglwys Seion, Laird Street, Penbedw

'Rydym wedi cael dechreuad hapus iawn i'n cyfarfodydd y mis cyntaf o 2019.

Ar y Sul cyntaf o'r flwyddyn daeth y Parchedig David Owens, Ponciau, i gynnal y Gwasanaeth - Gwasanaeth y Cymun Sanctaidd a da oedd croesawu Mrs Dilys Askew i'n plith. Erbyn hyn mae Dilys mewn cadair olwyn ond mae ei merch, Gill, sydd yn hynod o ofalus ohoni, yn dod a hi 'r gwasanaeth yn achlysurol – da oedd ei chyfarch a'i chroesawu ar ddechrau'r flwyddyn.

Cawsom ein Cyfarfod Blynyddol ar yr ail Sul a thrafod materion ynglŷn â'r Eglwys. Penderfynwyd, yn unfrydol, i gario 'mlaen gyda'r gwasanaethu tra mae'n bosibl.

Ers blynyddoedd bellach, mae Gwyn Jones a Terry O'Neill wedi bod yn llenwi swyddi pwysig ac anghenreidiol yn y Capel ac fel cydnabyddiaeth o hyn 'roedd pawb yn gytûn eu bod yn deilwng o'i galw yn Swyddogion o hyn ymlaen.

Dosbarthwyd Adroddiad y Capel am 2018 yn y cyfarfod – 'roedd Phyllis, ein Trysorydd, a Terry wedi gweithio yn galed iawn i'w gael allan mor gynnar yn y flwyddyn. Diolchwn yn gynnes iawn i'r ddau ac i Eunice Powell, yr Archwilydd, am eu gwaith.

Ar Sul 20ed o Ionawr cawsom wasanaeth arbennig iawn yng ngofal y Barchg. Helen Wyn Jones, Eglwysbach. Dyna'r tro cyntaf iddi ddod atom a cawsom orig arbennig iawn yn ei chwmni gan obeithio y daw atom yn fuan iawn eto.

Mae un o'n gwrandawyr, Y Parchg. Victor Edwards, bob amser yn barod i fod o gymorth i ni, yn aml yn llenwi bwlch ar fyr rybudd ac felly bu ar y Sul olaf y mis. Ni allai'r pregethwr penodol fod gyda ni ac fe lenwodd Victor y bwlch yn effeithiol iawn.

## Cymdeithas Cymry Lerpwl

Noson gyntaf y Gymdeithas wedi gwyliau'r Nadolig a'r Flwyddyn Newydd oedd yr ocsiwn flynyddol yn 5 Gwydrin Road. Roedd digon o eitemau o sebon i siocled ac o chanhwyllau a bagiau llaw yn cael eu gwerthu ac fe wneud elw o £173 tuag at y Gymdeithas. Wedi'r gwario cawsom gyfle i fwyta a sgwrsio.

Nos Fawrth ganlynol cawsom noson o frethyn cartref gyda thri o'r aelodau'r gymdeithas yn sôn am Suliau eu plentyndod mewn tair ardal yng Nghymru.



*Ocsiwn a'r gwerthwr*

Soniodd Beryl am bentref Rhostryfan, Norma am bentref Dolgarrog a'r cyffiniau a Brian am bentref Penmachno. Cafwyd eu hatgofion am y gwasanaethau, yr Ysgol Sul a Chymanfaoedd y plant. Dangoswyd inni mor ddylanwadol y bu'r Capel a'r Ysgol ar y tri ohonynt a'r newid sydd wedi bod yn ein Suliau ers yr adeg yna. Noson ddiddorol yn llawn atgofion.

Yng nghyfarfod olaf mis Ionawr cawsom gwmni y Gwir Barchedig Dr. Sue Jones, Deon Cadeirlan Anglicanaidd Lerpwl. Daeth atom i sôn am 'Bywyd yn y Gadeirlan'. Yn enedigol o'r Barri yn Ne Cymru cafodd Sue Jones yrfa lwyddiannus cyn dod i Lerpwl. Wedi bod yng Ngholeg y Drindod Caerfyrddin bu yn Gaplan ym Mhrifysgol Abertawe ac yn 2001 penodwyd hi yn Ddeon yng Nghadeirlan Bangor. Wedyn bu yn Ddeon yng Nghadeirlan Derby. Yn nechrau 2018 penodwyd hi yn Ddeon yng Nghadeirlan Lerpwl, y ferch gyntaf i'w phenodi i'r swydd. Mae wedi dysgu Cymraeg ers 2001. Cafodd ei sefydlu fel Deon yn Lerpwl ar Fai 5ed 2018. Bu'n sôn wrthym am ei gwaith yn y Gadeirlan a'r digwyddiadau sydd wedi bod yno yn ystod y flwyddyn. Roedd tri digwyddiad yn aros yn ei chôf sef arddangosfeydd y 'Knife Angel' tu allan i'r Gadeirlan a'r 'Lleuad' y tu mewn a'r Offeren Rhyfel Britten a gafodd ei berfformio yn y Gadeirlan ym mis Tachwedd i gofio diwedd y Rhyfel Byd gyntaf gyda cherddorion ac offerynwyr o'r Almaen a Lerpwl. Mae'n hapus yn ei gwaith ac wedi cymeryd at bobl Lerpwl. Mae'n hoffi ei chyd-weithwyr a naws eciwmenaidd y Gadeirlan.

## Eglwys Bethania, Crosby Road South, Waterloo

Cawsom oedfa fendithiol, undebol, ar fore Sul, 13 Ionawr gyda ffyddloniaid eglwys Bethel yn chwyddo ein cynulleidfa. Gwasanaethwyd wrth yr offeryn gyda Mrs Rhiannon Liddell a chyhoeddwyd y neges a gweinyddu y sacrament o Swper yr Arglwydd gan ein Gweinidog. Ef oedd wrth y llyw yn oedfa'r bore, 27 Ionawr yn cyfeirio at Iesu yn galw ei ddilynwyr yn 'gyfeillion'. Llwyddodd Mrs Meinwen Rees i gyfeilio'r emynau a thalodd John P. Lyons deyrnged uchel iddi am ei ffyddlondeb, er gwaethaf problemau iechyd, i ni fel cynulleidfa. Methodd Mrs Marian Lyons a dod allan fel y dymunai; a chofiwyd amdani hi a'i ffrindiau sydd yn wael. Dosbarthwyd yr Adroddiad Blynyddol ar ddiwedd yr oedfa ac mae pob rhan ohono yn raenus, o'r anerchiad i adroddiad y trysorydd a'r Ysgrifennydd Ariannol i'r diolch a fynegwyd gan Ysgrifennydd yr Eglwys. Y mae gennym gymaint o destun cân a'r ymdeimlad ein bod yn aelodau o'r un teulu, sef teulu Bethania.

## Eglwys Bethel, Heathfield Road, Lerpwl

Dyma ni yn y mis bach, a bydd amrywiaeth o dywydd y cael ei daflu atom o ddydd i ddydd:

*Byr yw dydd a dyddiau Chwefror,*
*Cynt y dêl yr hwyr na'r wawr:*
*Chwyth y crynddail hyd y cwmwl,*
*Chwyth y ceinciau hyd y llawr.*

Ar **Nos Lun, Ionawr 7fed** cawsom gyfarfod Gweddi dechrau'r flwyddyn o dan nawdd y Gymdeithas Lenyddol. Trefnwyd y gwasanaeth arbennig hwn gan Miss Mair Powell a da oedd ei gweld yn bresennol, ac yn temlo'n well i allu dod atom. Anne M. Jones a Glenys Johnson oedd yn gyfrifol am y gwasanaeth agoriadol yn diolch am y flwyddyn a aeth heibio ac am arweiniad yn y flwyddyn newydd. Yna, Mrs Beryl Williams yn darllen hanes y Creu o'r bennod gyntaf o Genesis a Miss Carys Jones yn ein hannog i werthfawrogi y cread, yn sôn am y cynhesu byd eang, am y sbwriel sy'n amharchu'r ddaear, llygru'r afonydd a'r llynnoedd – dim cyd-wybod am y cread crwn. Cyfeiriodd at eiriau Syr David Attenborough y daw diwedd ar y byd fel ag y gwyddom ni amdano, ac y dylem oll wneud ein gorau glas i edrych ar ei ôl 'y byd rhyfedd hwn'. Yn dilyn

deuawd gan Ann a Margaret Williams 'Tad tragwyddoldeb, plygaf ger dy fron', a Siân Hartley yn darllen emyn i'w chanu cyn i Norma ddarllen stori am ferch fach o Japan – Akee a welodd ddol yn ffenestr siop yn y dref a manteisiodd ar ei chyfle i'w dwyn ar ôl breuddwydio a'i deisyfu am beth amser. Ond concrwyd hi gan ei chydwybod. Darllenwyd hanes Saccheus, yntau yn twyllo ond pan alwodd yr Iesu arno, daeth newid i'w gymeriad. Eryl Dooling yn sôn am wneud tro gwael, ond mae gennym oll gydwybod i wneud iawn am hynny - aeth y ddol o ddwylo Akee yn ôl i'r siop!!

Soniodd am fywyd Josie Russell a gollodd ei mam a'i chwaer mewn gweithred erchyll. Dioddefodd hithau yn feddyliol a chorfforol ond gyda help, wedi medru codi ar ei thraed eto a rhedeg busnes yn cynhyrchu lluniau o Gymru drwy gyfrwng brethyn. Dangoswyd calendr o'i gwath. Darllenodd Eryl Wyn Jones delyneg i'r flwyddyn newydd gan daid y Parchedig Eleri Edwards, yn aeth ymlaen i sôn am yr hen arferiad o gynnal gwasail a hel calennig ar y dydd cyntaf o'r flwyddyn newydd. Daeth Mair a chalennig i'r gynulleidfa o ffrwythau a siocledi i'w derbyn wrth gerdded allan o'r gwasanaeth cofiadwy. Roedd y cyflwyniad o ddiolch defosiynol yn amserol iawn ar ddechrau blwyddyn a chawsom lawer i feddwl amdano ac i ymateb i'r her. Diolch Mair, ac hefyd i'n gweinidog Dr. D. Ben Rees am gloi y cyfan yng ngeiriau Gweddi'r Arglwydd.

Ar **Nos Lun, Ionawr 21** cawsom noson ddifyr a hwyliog yng nghwmni Gareth Roberts, Dr. John G. Williams a Roderick Owen yn adrodd eu hanes yn yr ysgol uwchradd. Bu Gareth yn Ysgol Gyfun Quarry Bank yn Lerpwl, a thrwy gyfrwng lluniau ar y sgrin gwelsom ddatblygiad yn yr adeiladau gan i amryw o ysgolion uno a throi o ysgol i fechgyn yn unig i dderbyn merched hefyd, ond mae'r gatiau enwog yn dal i sefyll yn lliwiau'r ysgol o las a du. Yr oedd ei dei yn yr un lliwiau, ac wedi ei chadw'n ofalus dros y blynyddoedd. Derbynodd Gareth addysg dda, a llwyddiant yn ei arholiadau. Gwyddoniaeth oedd ei brif bwnc ac aeth ymlaen â'i addysg yn y brifysgol. Cyflwynodd y cyfan yn y Gymraeg. Mwynhaodd ei ddyddiau ysgol gan wneud llawer i dro direidus gyda'i ffrindiau sydd yn rhan o fywyd bechgyn pob oes? Bu John Lennon, Les Dennis a phêl-droedwyr enwog yn derbyn eu haddysg yn Quarry Bank.

I Ysgol Gyfun Caergybi yr aeth Dr. John a gwelsom luniau o'r adeiladau. Pêl-droed oedd ei ddileit mwyaf a mwynhau rhedeg ar bnawn Gwener! Doedd dim gweithgareddau Cymraeg ar gael yno, ond derbyniodd addysg lwyddiannus yma i'w baratoi i ddilyn ei ddymuniad er yn blentyn i fod yn feddyg.

Yn Ysgol Ramadeg y Bechgyn y Bala derbyniodd Roderick ei addysg uwchradd (neu yr hen enw arni Ysgol Tŷ Tan Domen), tŷ a adeiladwyd dan y domen hynafol tua 1712 er mwyn gwarchod y dref. Yr arwyddair arno mewn Groeg a Lladin. Ymhen amser bu dirywiad yn yr adeilad a daeth Coleg yr Iesu Rhydychen i'r adwy oherwydd Edmund Meyrick a dau deulu ariangar i sefydlu ysgoloriaeth blynyddol i Goleg yr Iesu. Ar wahân i wersi arferol yn yr ysgol roedd llawer o weithgareddau ymylol sef sefydlu cylchgrawn yr ysgol, Eisteddfod a'r cystadlu cyd-rhwng y timau Aran, Berwyn a'r Arenig. Bu Roderick yn cymryd rhan amlwg yn y cystadlu hwnnw. Yma y derbyniodd Syr O. M. Edwards, Dr. R. T. Jenkins, Syr Ifan ap Owen Edwards, y Parchedig John Puleston Jones, Dafydd Iwan a llawer eraill eu haddysg, a bu athrawon o safon Jâms Nicholas ar y staff

*Mae henaint rhwng dy furiau*
*Na dyr ein dyddiau ni,*
*Mae'n hŷn na'th hen ddisgyblion*
*Hŷn na'th athrawon di.*

Diolch i'r tri am godi cwr y llen ar gyfnod dylanwadol yn eu bywydau, i Ben Hughes am lywyddu gydag afiaith y noson ac i Dr. Ben Rees am y gwerthfawrogiad ar y diwedd o'r tri brawd a fu yn ein difyrru.

Ar **Nos Lun, Ionawr 28**, daeth Mr Mark King atom i'r ganolfan i adrodd "Ein stori" y sefydliad a gychwynodd ef a'i deulu ar ôl i Oliver King, eu mab 12 oed farw o anaf geneteg oedd ar ei galon, a hynny tra'n nofio yn ei ysgol – 'Y Brenin Dafydd' (King David) yn Childwall. Doedd dim ar gael i'w adfywio, ac er i'r gwasanaeth brys gyrraedd roedd hi yn rhy hwyr yn hanes Oliver. Nid yw'r teulu am i neb fynd drwy erchyllterau cyffelyb, felly eu dymuniad yw ar i bob ysgol yn y wlad a phob sefydliad feddu ar y peiriant – y *defibrillator* – i fod mewn cyrraedd ac mewn pryd. Casglwyd digon o arian yn Bethel i bwrcasu un o'r rhai drwy argymhelliad Dr. John Williams, Mr. Brian Thomas a'n gweinidog Dr. D. Ben Rees. Bu gwersi ymarferol i'r gwirfoddolwyr ar sut i ddefnyddio'r peiriant ac fe'u hanrhydeddwyd hwy gan dystysgrif o law Mr. Mark King. Roedd rhai ohonynt yn aelodau Bethel, rhai o'r Dosbarth Cymraeg ac eraill o Undeb Gorawl Gymraeg Lerpwl. Diolch am ymateb i'r her o ofalu am eraill, a bu'r noson yn un bwysig, yn dangos yr angen mawr sydd am y peiriant sy'n adfywio'r galon.

Trist yw cofnodi marwolaeth di-syfyd Mrs Joyce Lewington, Wavertree yn ei chartref ac yng nghwmni ei merch. Roedd hi'n aelod hynod o ffyddlon a gweithgar yn y capel am flynyddoedd maith, gwasanaethodd â gwên at ei hwyneb a diolch yn ei chalon, a chân yn ei llais. Roedd cael canu emynau yn gysur mawr iddi hi a Delyth ei hefaill, a chofiwn am y ddwy yn moliant yr eglwys. Cydymdeimlwn â Ruth y ferch a fu'n ofalus iawn o'i mam yn ei llesgedd. Anfonwn ein cofion fel eglwys at eraill o'n haelodau sydd mewn anhwylder y dyddiau hyn ac yn gaeth i'w cartrefi. Pob bendith arnoch oll oddi wrthym ni ym Methel.

## *GAIR BYR I'R DARLLENWYR, CYFRANWYR, DOSBARTHWYR A THEULU'R ANGOR*

- **Tanysgrifiadau/Rhoddion** – Dyma eitem i godi'n calonnau, ac ym mhob rhifyn cawn golofn haeddiannol o haelionus. Daliwch i gynnal y papur bro unigryw hwn trwy anfon at ein Trysorydd, Roderick Owen, Maeshir, 21 Drennan Road, Allerton, Lerpwl / Liverpool L19 4UA. Bydd eich cyfraniad yn cael ei gydnabod yng Nghornel y Trysorydd yn *Yr Angor.*
- ***Pris Yr Angor.*** Am eleni eto yr un pris. Anhygoel. Dim ond £11.00 trwy'r post, trwy'r capeli a'r cymdeithasau £5. Cyfle i hysbysebu am £2, tudalen gyfan £60, hanner tudalen £30.
- **RHIFYNNAU NESAF YR ANGOR**
- **Rhifyn Ebrill 2019** erbyn bore Gwener, 1 Mawrth, 2019 – lluniau, adroddiadau, llythyron, cyfarchion, hysbysebion i benatgarthdrive@talktalk.net
- **Rhifyn Mai 2019 –** erbyn bore Llun, 1 Ebrill, 2019 i 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl L18 6HW er mwyn ei bostio i'r cysodydd am 1 o'r gloch ar 1 Ebrill, 2019.
- **Rhifyn Mehefin 2019** – erbyn bore Mercher, 1 Mai, 2019 gan y bydd y cyfan yn sach y postman am Gymru erbyn hanner dydd y diwrnod hwnnw.
- **Cofier y wefan –** Liverpool-welsh.co.uk (ewch yno yn gyson, byddwn yn gobeithio gosod mwy o luniau yno yn y dyfodol agos).
- **Cofier hysbyseb Dathlu** geni, hanes a chyfraniad *Yr Angor* am bron i 40 mlynedd. ***Dyddiau'r Dathlu: Sadwrn, 20 Gorffennaf a Sul, 21 Gorffennaf, 2019***

Rhifyn Mawrth heb y clawr_Layout 1  01/03/2019  10:26  Page 6

**Cyflwyno:**

# KATE ROBERTS (1891-1985)

***gan Dr. Pat Williams, Allerton***



Ni fyddai'r un gyfres o bortreadau ar lenorion pwysicaf Cymru yn gyflawn heb gynnwys Kate Roberts, 'Brenhines ein Llên'. Mae hi'n arbennig, nid am ei bod yn ferch o'r dosbarth gwaith a lwyddodd i ennill gradd prifysgol mewn cyfnod pan oedd merched yn gyffredinol yn cael eu hamddifadu o'r cyfle i gael addysg uwch, ond oherwydd ei dawn naturiol i adrodd stori ac ymdrin â phrofiadau sydd yn cyffwrdd â chalonnau ei darllenwyr.

Ar ôl gadael y coleg yn 1913 cafodd swydd am ryw ddeunaw mis mewn ysgol gynradd yn Llanberis, cyn symud i ddysgu mewn ysgolion uwchradd yn ne Cymru. Yn 1917 bu farw un o'i brodyr o sgil effeithiau ei anafiadau yn y Rhyfel Mawr. Bu hyn yn ergyd drom i Kate ac i leddfu ei phoen a rhoi mynegiant i'w theimladau am dristwch ac anghyfiawnder bywyd, dechreuodd ysgrifennu storïau byrion, a chyhoeddi ei chyfrol gyntaf, *O Gors y Bryniau*, yn 1925.

Yn 1928 priododd â Morris T Williams, (1900-1946) a oedd, fel hithau, yn frodor o Sir Gaernarfon. Gan mai argraffydd oedd Morris Williams, penderfynodd y ddau yn 1935 brynu Gwasg Gee yn Ninbych, lle y buont yn byw am weddill eu hoes. Daliai Kate i lenydda ac yn 1936 cyhoeddodd nofel fer *Traed mewn Cyffion*, a oedd yn portreadu caledi bywyd a'r newidiadau a fu yn ngogledd-orllewin Cymru yn y blynyddoedd rhwng 1880 a 1917. Y flwyddyn wedyn ymddangosodd cyfrol o storïau byrion, *Ffair Gaeaf*, ond ar ôl hynny, ni chyhoeddodd lyfr arall am flynyddoedd; yn hytrach ysgrifennai'n gyson ar bynciau llosg y dydd ar gyfer cylchgronau a phapurau newydd. Ar ôl i'w gŵr farw'n ddisymwth yn 1946, ac yntau yn ddyn cymharol ifanc, trodd at ysgrifennu creadigol unwaith eto i leddfu ei galar.

Er iddi fyw yn y de am dros 20 mlynedd, ardal ei magwraeth yn Rhosgadfan, ger Caernarfon yng ngogledd Cymru yw cefndir y rhan fwyaf o'i storïau ac ynddynt i gyd mae hi'n dangos craffter anarferol wrth bortreadu cymeriadau, yn enwedig merched a phlant. Yn ei nofel fer *Tywyll Heno* mae hi'n dangos ei dawn i ddeall ac i ddisgrifio salwch meddwl gwraig oedd yn ymddangosiadol gyfforddus ei byd. Yn ei chyfrol hunangofiannol *Y Lôn Wen* mae hi'n disgrifio adwaith plentyn i'r amgylchiadau o'i chwmpas, gan ddisgrifio'i braw wrth weld chwarelwr oedd wedi mynd i'w waith yn holliach ac yn dychwelyd adref ar elor. Mae'n debyg mai Winni Ffini Hadog yn *Te yn y Grug*, merch oedd yn cael ei chamdrin gartref ac yn gwrthryfela yn erbyn y drefn, yw ei phortread mwyaf adnabyddus o blentyndod difreintiedig.

Er ei bod yn ysgrifennu am fywyd pob dydd mewn pentrefi anenwog yn y Gymru Gymraeg, fe'u gwnaeth yn *microcosm* o gymdeithas ehangach. Mae'r profiadau a ddylunir ganddi yn gyffredin i bawb - y berthynas (ac weithiau yr anghydfod neu ddiffyg dealltwriaeth) rhwng gŵr a gwraig a rhwng plant a'u rhieni, rhwystredigaeth heneiddio a lle'r ferch mewn cymdeithas. Roedd hi hefyd yn feistres ar dechneg y stori fer ond yn bennaf oll, creodd ryddiaith o safon arbennig gan ddefnyddio amrywiaeth o iaith ffurfiol a thafodiaeth, sydd yn gwneud ei gwaith yn ddarllenadwy iawn.


# PEARSON COLLINSON

## *TREFNWYR ANGLADDAU LERPWL*

GWASANAETH EFFEITHIOL -
CAPELI PREIFAT, CEIR MODUR HARDD, ATEB NOS A DYDD

**Prif Swyddfa**
87-91 Allerton Road, Liverpool L18 2DD
Ffôn: 0151 722 1514. Ffacs: 0151 737 1997

**Swyddfa arall**
255 Speke Road, Liverpool L25 0NN
Ffôn: 0151 448 0808

National Association of Funeral Directors® Est 1905

Os ydych ar ôl cysylltu gyda un o'r swyddfeydd am gael gair personol yna canolbwyntiwch ar 0151 722 1514

Rhifyn Mawrth heb y clawr_Layout 1 01/03/2019 10:26 Page 7

*Myfyrdod*

# DYDD GŴYL DDEWI

Mae mis Mawrth wrth y drws ac mae'n adeg dathlu unwaith eto trwy'r *Angor*. Gellwch fentro pa le bynnag mae Cymry bydd coffáu Dewi Sant yn sicr o fynd ymlaen. Yn ein gwlad fechan ni yr arferiad yw cael Cinio Cymreig a gŵr gwadd, un o'r "pobol blaenllaw". Wrth edrych yn ôl dros y blynyddoedd rydw i wedi bod yn rhan o'r dathlu, naill ai yn trefnu'r noson neu'n gwledda. Mae yna ddau achlysur sy'n sefyll allan ac os caf, hoffwn rhannu nhw gyda chi ddarllenwyr *Yr Angor*.

Af yn ôl i'r 50au pan oeddwn yng Ngholeg Caerleon ar Wysg a dyma ni'r myfyrwyr yn yr Adran Gymraeg yn mynd ati i drefnu cinio ac yn rhoi gwadd i'r gymdeithas Gymraeg yng Nghasnewydd i ymuno â ni. Y gŵr gwadd a'i wraig oedd TREFIN a'i wraig Maxwell Fraser (o dan yr enw yna roedd hi'n ysgrifennu llyfrau teithio). Dechreuodd Trefin nid areithio ond fel petai yn sgwrsio trwy ddweud am hen athro yn dysgu adnod i'r dosbarth. Llythyr cyntaf Pedr Pennod 2 ac adnod 9 – "Ond yr ydych yn hil etholedig, yn offeiriadaeth frenhinol, yn genedl sanctaidd." Ac ni wnaf anghofio hi hyd fy medd. Aeth ymlaen a dweud nad oedd llawer o hanes Dewi Sant i'w gael a chyfeiriodd at femrwn Rhigyfarch yn yr unfed ganrif ar ddeg.

Mab oedd Dewi i Non a Sant (brenin Ceredigion) ac fe addysgwyd yn Hen Fenyw (ysgol rhwng Aberaeron ac Aberteifi – heddiw) ag fe ymsefydlodd Dewi yng Nglyn Rhosyn ar fin afon Alun ger cadeirlan Tŷ Ddewi. Cyn ei wneud yn Esgob roedd gan Dewi ysgol enwog a elwir Vallis Rosina ac fu'n boblogaidd gyda phererinion. Gweithiodd Dewi yn galed i'r gymuned ac aeth o gwmpas Gymry gyfan yn pregethu'r Crist. Siars Dewi Sant oedd "Byddwch lawen, a chedwch eich ffydd a'ch credo, a gwnewch y pethau bychain y gwelsoch ac a welsoch gennyf". Gorffennodd Trefin ei sgwrs trwy dymuno'n dda ini ac i bwysleisio wrth ddysgu plant – mor werthfawr ydyw i garu popeth Cymreig, yn enwedig ei iaith.

Adeg arall oedd gydag yr annwylaf Parchedig J. Eirian Dayies. Roedd yn y Waunfawr yn beirniadu yn yr Eisteddfod Bro ac yn aros gyda ni yn y tŷ Capel. Cyn mynd adref fe ofynnodd imi ddangos iddo y "Lôn Wen" (Kate Roberts). Dyma i'r car ac am Rhosgadfan ac ar hyd y "Lôn Wen" hyd at Foel Siabod hyd "giat y mynydd ac i'r Nefoedd". Cawsom sgwrs yn eistedd yn y grug ar Foel Siabod. Roedd adeg Mawrth ac fe aeth Eirian i sôn am Gymru ac meddai yn Y Bala uwchben y llyn oedd dau fynydd – Y Berwyn ac Yr Aran. Mae'r ddau fynydd yn wahanol – bod Y Berwyn "dipyn yn arw, yn gyhyrog ac yn stormus weithiau ond yr Aran yn llyfn, yn dawel, yn bleserus i fynd ar hyd-ddi. Er ei bod ar yr wyneb yn wahanol pan ewch i waelodion y llyn mae'r gwaelodion ar yr un gwastad." Mae'r Iddew am llawer blwyddyn wedi dweud maent yn well na gwledydd eraill. Na ato i'n gwlad ni ddweud hynny am unrhyw wlad arall na chenedl arall. Mae hyn yn gamsynied, does dim ffafriaeth gan Dduw nac ychwaith i ddarostwng crefydd i lefel rhagfarn cenedlaethol. Artist yn edrych lawr ar Grefftwr; Cyfoethog yn edrych lawr ar y tlawd; Un crefydd yn edrych lawr ar grefydd arall. Bu farw Crist dros BAWB. 'Iesu Grist fydd pob peth a Iesu Grist ym mhob peth'. Dere fe awn am ginio! Ac fel yna orffennodd y Seiat ar Foel Siabod gydag Eirian. Heddwch i'w lwch yn Nyffryn Tywi.

**ELWYN**



## Cinio Gŵyl Ddewi

### Cymry Lerpwl a'r Cyffiniau

**ar Nos Wener, 1 Mawrth 2019**
**am 7.30 o'r gloch**
**yng Nghlwb Golff Woolton**
*o dan nawdd Cymdeithas Cymry Lerpwl a Chymdeithas Lenyddol Bethel.*

**Y Gŵr Gwadd:**
**Aled Lewis Evans, Wrecsam**

Tocynnau ar werth am £25.
Digon o le i barcio a chroeso twymgalon

**Rhaghysbysiad Pwysig**

# CYNGERDD

**gan**

## CÔR CENHADOL O'R INDIA

### ar Nos Wener, 12 Ebrill, 2019

### yn Penny Lane, Lerpwl

**am 7.30 o'r gloch.**

**Rhagor i fanylion gan y Golygydd**
**benatgarthdrive@talktalk.net**
**a rhifyn nesaf o'r Angor**

Rhifyn Mawrth heb y clawr_Layout 1 01/03/2019 10:26 Page 8




*John Lennon Art and Design Building*
*Duckinfield Street,*
*Liverpool*
*L3 5RD*
*31/1/2019*

## ARDDANGOSFA FFOTOGRAFFAU CYMRY LERPWL

Annwyl Olygydd,


Cyfarchion i'r *Angor* a hoffwn gael cydweithio â chwi fel Cymry Lerpwl. Myfyrwraig ar fy nhrydedd flwyddyn ydwyf, yn astudio Hanes Celf ym Mhrifysgol John Moores. Ar gyfer fy mhrif brosiect fy mlwyddyn olaf, rwyf yn bwriadu cynnal arddangosfa o ffotograffau o'r gymuned Cymreig yn Lerpwl o gwmpas diwedd y 1880au a dechrau 1900au.

Fy nod yw defnyddio ffotograffau personol o bobl a'u teuluoedd sy'n byw ac a oedd yn byw yn Lerpwl. Oherwydd hyn rwy'n dibynnu ar gymorth unrhyw un sy'n meddwl fod ganddynt ffotograffau addas ac yn hapus i gymryd rhan yn yr arddangosfa dechrau Mawrth 2019 (5ed i'r 10fed mae'n debyg)

Diolchaf i chwi am eich cefnogaeth a bu aml un, fel Nain a Taid, yn fy nghynghori i gysylltu â chwi am eich arweiniad a'ch cymorth.

Gobeithiaf y caf gymorth Cymry'r ddinas hefo lluniau y byddant yn hoffi eu cyfrannu i'm gofal. Fe gaiff unrhyw gymorth ei wir werthfawrogi.

*Yn ddiolchgar*
*Miriam Parry*




## DYFODOL ADEILADAU PRINCES ROAD

Mae'n dda clywed fod posibilrwydd y bydd adeiladau Princes Road yn Lerpwl, sydd wedi aros yn wag ers llawer gormod o flynyddoedd, yn cael ei drawsnewid maes o law i bencadlys yr elusen plant lleol, KIND. Gofynnwyd i'r elusen, sy'n gweithio mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adeiladu Glannau Merswy, i wneud cais newydd arian gan y Loteri Cenedlaethol am £2 filiwn a fydd yn caniatau i waith pellach gael ei wneud i sicrhau datblygiad canolfan gwerth £ 6 miliwn i bobl ifanc dan anfantais yn y Ddinas. Bydd y rhan fwyaf o drigolion Lerpwl yn gweld hyn fel datblygiad i'w groesawu ar gyfer adeilad sydd bellach angen ei ddefnyddio neu ei ddymchwel.

Methodd yr Ymddiriedolaeth ddwywaith yn eu cais o'r Loteri Cenedlaethol a da deall bod y Parchedig Ddr. D. Ben Rees, ar ran Cymry Lerpwl a hanes yr adeiladau, yn ymgynghori gyda'r Bwrdd sydd yn paratoi y cynlluniau a welwyd yn y *Liverpool Echo.*



Rhifyn Mawrth heb y clawr_Layout 1 01/03/2019 10:26 Page 9

# Pa mor Gymreig yr ydych fel cymunedau?

## *gan D. Ben Rees*



*Ysgol y Berwyn, Y Bala*

Dywedodd gŵr hirben wrthym rai dyddiau'n ôl bellach fod Ysgol y Berwyn, Y Bala yn ei gyfnod ef (1950-1955) yn ddigon Seisnigaidd, ac mae'n debyg mai eithriadau prin oedd cael ysgol uwchradd yng Nghymru'r adeg honno lle y byddai plentyn o gartref Cymraeg yn teimlo yn gyfforddus yn ei ddosbarth a gyda'i athro. Clywsom pa mor seisnigaidd oedd Ysgol Uwchradd Caergybi mewn cyfnod diweddarach a Ysgol Syr Hugh Owen yng Nghaernarfon mewn cyfnod cynharach. A Ysgol Uwchradd Machynlleth hyd y nawdegau o'r ganrif ddiwethaf. Trwy drugaredd nid oedd hynny yn wir ymhob ran o Gymru fach?

Yr oedd Ysgolion Uwchradd Cymreig ar gael hefyd fel Ysgol Sir Botwnog a Ysgol Sir Tregaron, neu a defnyddio yr enw cyfoes, Ysgol Henry Richards. Soniodd y Parchedig Islwyn Ffowc Elis wrthyf yn nechrau'r saith degau am ei brofiad chwithig ef yn Ysgol Uwchradd Dinas Bran ger Llangollen, lle'r oedd carfan uchel o'r athrawon a llu o'r plant oedd yn byw ar ddaear Cymru mor wrth-Gymreig. Plant Froncysyllte a



*Islwyn Ffowc Elis*

Pontcysyllte a thref Llangollen ei hun, yn ymwadu a'r Gymraeg. Roedd dim pleser o gwbl yn yr ysgol. Hoff bwnc Islwyn Ffowc Elis oedd arlunio ond ar ddiwedd ei flwyddyn gyntaf fe briododd yr athrawes ac ymadael ac ni phenodwyd neb i lenwi ei lle. A dyna arlunio yn diflannu oddi ar yr amserlen. Ond i raddau diolch am hynny, oherwydd penllanw hyn i gyd oedd cynhyrchu nofelydd gafaelgar a luniodd *Cysgod y Cryman* ac *Yn Ôl i Leifior,* dwy nofel orchestol.

Mae pethau wedi gwella ers hynny. Ni fuasai unrhyw ysgol heddiw yn caniatáu i i'r Gymraeg ddiflannu o amserlen yr ysgol. Nid oes ysgol uwchradd na Ysgol Gyfun – o Gasnewydd i Gaergybi yn gwbl wrth-Gymreig hyd y gwn i. Dethlir bellach Gŵyl Ddewi ymhob ysgol a derbynnir cylchgronau Cymraeg ar dro. Cwestiwn arall faint o lyfrau Cymraeg a bwrcesir mewn blwyddyn? Y broblem arall, anodd dros ben yng nghymoedd Gwent a Morgannwg yw cyfieithu hyn o ddosbarth yr ysgol i'r cartrefi gan nad yw neb, fel petai bellach, yn ceisio cymell y plant i uniaethu ei hunain gyda chymdeithasau sydd yn uniaith Gymraeg. Dyna Aelwyd yr Urdd sydd yn ganolfan dda os oes Aelwyd yn yr ardal ond os nag oes mae'n debyg bod Capel Cymraeg yn dal mewn bodolaeth yn nifer o drefydd a phentrefi y cymoedd. Gwyddom fod y rheiny yn gwegian mewn llawer ardal fel ag y maent yng Ngogledd Cymru. Rwy'n deall; mai dim ond Un Capel Cymraeg sydd ar ôl yn nhref y Rhyl tra deg mlynedd yn ôl yr oedd wyth Capel Cymraeg yno. Yn Abergele dim ond Capel Presbyteraidd Mynydd Seion sydd ar agor. Cauwyd y blynyddoedd diwethaf hyn Capeli yr Annibynwyr, Bedyddwyr a'r Eglwys Fethodistaidd yn y dref, a hyd yn oed Capel Presbyteraidd Saesneg Pensarn wedi cloi am yr ofal dro drysau'r deml ac adeiladwyd gan ddau farsiandiwr o Lerpwl, David a John Roberts. Dyna'r stori. Chwalfa go iawn. Ac ar bwy y mae'r bai fod y sefyllfa wedi datblygu yn y Bala a Llanddewi Brefi a Llandysul fel y gwnaeth hi ers 2000. Rhaid ddweud fod bai ar arweinwyr y capeli i adael sefyllfa felly i ddatblygu o dan eu trwynau.

Credaf yn bersonol fod angen pwysleisio'r pwysigrwydd o gael Cristionogion o Gymry i wasanaethu o fewn cymunedau Cymru. Sut y gall hyn ddigwydd heb bartneriaeth rhwng y capeli a'r ysgolion? Trychineb yw cau capeli mewn ardaloedd lle ceir ysgolion Cymraeg. Meithrin perthynas agos rhwng yr ysgolion a'r capeli yw cenhadaeth bwysicaf pob gweinidog, diacon a blaenor. Os na ddigwydd hyn, credaf yn gydwybodol ein bod yn gorffwys ar ein rhwyfau. Pwy sydd yn barod i ymateb wrth lunio gair byr i *Taro Post Yr Angor* a phwy sydd yn ein plith cefnogi y gwaith a gyflawnir gan fudiadau yr iaith?



*Capel Mynydd Seion, Abergele – yr unig gapel sydd ar agor yn y dref*

***Adrodd Stori***

# *YMCHWILIO DROS Y BANC HSBC*

## *gan Gareth Davies*

Roeddwn i'n gweithio am dri deg mlynedd fel ymchwiliwr gwarchodaeth i fanc enwog yr HSBC. Roedd rhaid i ni ymchwilio bob trosedd a gyflawnwyd yn erbyn y banc byd-enwog. Mae'r rhif lladrata o'r Banc yn y Deyrnas Unedig yn gostwng ond maen nhw'n dal i ddioddef tua gant o ymosodiadau bob blwyddyn.

Un o'r digwyddiadau cyntaf nes i ymchwilio iddo ar ôl ymuno yn yr adran diogelwch, oedd pan ddaeth lladron i mewn i un o'n canghennau ni a rhoi nodyn ar gefn yr amlen i'r arianwraig; dywedodd fe ddim byd yn ychwanegol. Ysgrifenwyd ar y darn papur bod gwn gyda fe a dylai hi osod ei holl phapurau punt i mewn i fag cynfas yn ddiymdroi. Gwnaeth yr arianwraig fel dywedodd y dyn wrthi hi. Cymerodd y dyn yr arian heb air o gwbl a gadael y banc yn gyflym.

Galwodd yr arianwraig y rheolwr a dangosodd hi'r nodyn ar yr amlen iddo fe. Darllenodd y rheolwr y nodyn yn ofalus. Trodd yr amlen drosodd ac mae e'n gweld stamp, enw a chyfeiriad ar yr ochr arall. Mae fe'n ffonio yr heddlu ac maen nhw'n mynd i'r cyfeiriad oedd ar yr amlen. Deng munud hwyrach daeth y lladron lawr y stryd gyda bag a'r arian. Cawson nhw ei arestio yn y fan a'r lle a'r funud nesaf dyma'r prif leidr yn dweud :

*"How did you know - it was me?"*

Cyn y flwyddyn dwy fil a un deg un pan doedd dim arian gyda chwsmer ac roedd e'n dal i ysgrifennu siecau gyferbyn *cheque guarantee card*, roedd rhaid i'r banc i dalu'r siec. Roedd un rheolwr y gweithiwn gydag ef yn awyddus i un ohonom i fynd i gasglu llyfr siecau oddiwrth cwsmer oedd yn dipyn o niwsans. Teithiodd y brawd a gafodd y dasg i dŷ y cwsmer oedd wedi ei leoli ar ystad arw. Cnociwyd ar y drws ffrynt - ac mae'r cwsmer a'i wraig yn agor y drws. Wrth i fynd i mewn i'r tŷ dilynodd ci du mawr gan setlo yn hapus braf Bu dadlau mawr. Dywedodd y cwsmer "Dw i ddim yn gallu ffeindio'r chequebook," a dywedodd y person oedd yn cynrychioli y rheolwr "Edrychwch yn y dror yma. Mae rhaid i chi ffeindio fe." Daliodd ymlaen ar y trywydd hwnnw.

Roedd pawb yn cerdded o gwmpas yr ystafell yn gweiddi pan benderfynodd y ci du mawr neud ei fusnes ar y carped yng nghanol llawr yr ystafell. Safodd pawb am eiliad yn fud. Roedd y rheolwr yn edrych ar y dyn a'i wraig ond neb yn symud i lanhau'r baw ci na dweud dim byd. Dechreuodd y dadlau eto ac yn y diwedd cafodd cynrychiolydd y rheolwr y llyfr siec a diolch byth roedd e'n gallu gadael yr ystafell a'r tŷ. Wrth iddo fe gyrraedd y drws ffrynt dwedodd y cwsmer wrtho fe "Ydych chi ddim yn mynd i gymryd eich ci gyda chi?" Meddai'r person o'r banc: "Nid fy nghi yw e - meddylais i ei fod e yn gi oedd yn perthyn i chwi eich dau".

Roeddwn i dro arall yn gwneud gwaith ar un gangen o'r banc ac roedd scaffolding ar y tu allan i'r adeilad. Roedd popeth yn normal tu fewn. Un noson aeafol yn agos i'r Nadolig roedd hi'n dywyll ac roedd y strydoedd yn brysur dros ben. Roedd safe nos gyda'r banc lle y medrai siopwyr y cylch allu rhoi eu arian parod dros nos. Daeth rywun i mewn a gosod bocs mawr dan y Safe nos. Roedd clawr dros y bocs ond dim clo. Yna mae'r boi yn gosod nodyn ar y Safe nos yn dweud "Achos bod gwaith adeiladu ymlaen torrwyd y Safe ni, plis defnyddiwch y bocs ar y pafin". Yna mae e'n gosod hen bwrs safe nos i mewn i'r bocs a cherdded bant. Daeth dwsin o siopwyr heibio gan daflu yr arian a dderbyniwyd y diwrnod hwnnw i mewn i'r Blwch Datgloi ar y pafin. Hanner awr hwyrach daeth y boi yn nôl a chodi ei focs a diflannu i'r tywyllwch. Yr oedd ef ychydig filoedd o bunnoedd yn fwy cyfoethog nag yr oedd ef yn gynharach yn y dydd. Weithiau'r syniadau symlaf ydy'r gorau.

---

Hunangofiant y Parchedig Athro D. Ben Rees **"Di-Ben-Draw"** sef ***A Life UNLIMITED: AN AUTOBIOGRAPHY of D. Ben Rees from LLANDDEWI BREFI to Liverpool.***
Cyfrol drwchus y gellir ei archebu o Amazon am £10.99 a argraffiad Kindle ar gyfer i-player am £3-50.
Adolygiad gan Len Shurey, Caerffili.


## *HUNANGOFIANT HYNOD DDIDDOROL*

Mae wedi bod yn fraint fawr i mi i ddarllen Hunangofiant y Parchedig Athro D.Ben. Rees yn Saesneg gan iddo ddod allan ar gyfer y farchnad Nadolig gan Wasg o Lundain, Austin Macauley. Ces i flas mawr i ddarllen yr hunangofiant Cymraeg Di-Ben-Draw ond yn awr dyma ni yn cael cymwynas oi ddarllen y gyfrol Saesneg ac y mae cryn dipyn o wahaniaeth rhwng y gyfrol yn y ddwy iaith.

Mae'n amlwg o ddarllen *Unlimited Life* fod ei waith fel cyfathrebwr dros y blynyddoedd wedi bod yn syfrdanol. Fel gweinidog, ie fel dinesydd (a bellach Dinesydd Er Anrhydedd Dinas Lerpwl) ac fel aelod dynolryw dyngarol, mae ei ymroddiad a chyflawniadau cryn dipyn y tu hwnt i'r cyffredin o blant dynion. Atgoffwyd fi am firagl ein Harglwydd o fwydo'r torfeydd allan o adnoddau'n gymharol fach. Mae yr un llaw Anfeidrol i'w ganfod yng nghyfoeth yr achos Cristnogol, Cymraeg yn enwedig yn Ne Lerpwl. Rhaid bod aml weddïau taer yn cyflwyno, cadarnhau a chynnal popeth sy'n mynd ymlaen yno. Llawer o ddrysau sydd ar agor yno o hyd. Caiff bawb fynediad i glywed Efengyl Iesu Grist. Dyna prif amcan ei holl fywyd ym mhopeth. Gogoniant Duw sydd yn yr Efengyl, nid unrhyw air arall. Neges fawr yr hunangofiant hwn yng ngeiriau Dr. Rees ei hun yw:

*"Nid oes dinas barhaus i neb ohonom a dylem wneud y gorau o bob cyfle a ddaw i ni"*

Onid yw'r Efengyl Iesu Grist yn bwysig felly wrth gysidro hyn?




Heblaw hyfrydwch yn ei waith a'i gymuned, bid siŵr fod yna ddigon o benbleth â chalon friw yn yr alwedigaeth yr ymgymerodd ag ef 55 mlynedd yn ôl. Mae'n nodweddiadol o weinidogaeth Dr. Rees o'r dechrau yng nghymoedd y De. Mae'n dda gwybod fod digon o gefnogaeth ganddo o hyd o du ei bobl gefnogol a brwdfrydig. Mae'n hawdd deall ymrwymiad teulu'r mans i Dde Lerpwl.

Gallaf eich sicrhau fod pob agwedd o'r llyfr yma yn ddiddorol dros ben. Mae hwnnw'n wir o anghenraid oherwydd bod yr awdur yn ddyn amryddawn, brwdfrydig, egnïol, ac yn bell ei welediad. Mae'n ymddiddori mewn meysydd diwylliannol, addysgol, llenyddol, gwleidyddol ac o ran etifeddiaeth Gymreig. Nid yw chwareon a theithio'r byd yn dianc rhag ei rwyd chwaith. Mae'n anodd i adolygydd wybod lle i derfynu. Mae mwy nag un sylwebydd yn amau'n chwaraeus bod Dr. Rees "yn ddau ddyn" ac yntau bellach dros ei bedwar ugain mlwydd oed. Mae llawer o lyfrau penigamp wedi deillio o'r awdur hwn, a ni fydd ei ddarllenwyr wedi eu siomi yn y diweddaraf.

Yr hunangofiant yma sydd newydd ymddangos dan y teitl *"A Life Unlimited"* yn Saesneg sydd yn cael fy sylw yn awr. Nid yw'r awdur yn dueddol i senoffobia fel profir gan fwy nag un agwedd o'i weithgareddau. Felly, mae yna wledd i'r Sais, i'r Cymry di-Gymraeg a'r Cymry ansicr eu Cymraeg llenyddol sydd am wybod mwy am y llenor a'r hanesydd hwn. Caiff pawb ohonoch ddarllenwyr eich gweddill a'ch gwala a hwnnw yn cael ei gyflwyno yn ddifyr.

Mae'n dod i'r amlwg bod Dr. Rees a'i bobl yn gwybod yn dda sut i drefnu eu hunain a'u gweithgareddau am y canlyniadau gorau. Yn y flwyddyn 2019 fel yn y blynyddoedd cynt. Deallaf fod y gyfrol ar werth hefyd gyda Watersons.

# Creu cerddi dilyniant buddugol Gŵyl y Gadair Ddu


## gan Matin Huws, Ffynnon Taf ger Caerdydd

Yn gynta, diolch yn fawr i'r Dr D Ben Rees am y gwahoddiad i sgrifennu erthygl am y wobr enillais i yng Ngŵyl y Gadair Ddu ym Mhenbedw 2017. Rwy wedi penderfynu sôn yn fras am y broses cyn ac wrth greu cerddi'r dilyniant buddugol, gan obeithio y gallai'r sylwadau helpu beirdd fel fi sy'n bwrw eu prentisiaeth.

Rwy'n cofio sylwi ar y gystadleuaeth yng nghylchgrawn *Eisteddfodau Cymru* ym Mehefin ac yn meddwl: Bydd hon yn dipyn o her. Wedyn darllenais i am yr ŵyl ar wefan *Cymru Fyw* a *Wales Online*, hynny yw gwefan y *Western Mail*. Wrth i'r dyddiad cau agosáu, Gorffennaf 19, fe gynyddodd fy niddordeb i ac, yn y diwedd, fe benderfynais i fentro.

Y testun oedd 'cerdd neu gerddi am fywyd a gwaith Hedd Wyn'. Y nod oedd barddoni am y dyn ei hun, y dyn o gig a gwaed nid y myth sy wedi glynu ato fe mor hir, hynny yw peidio â gogoneddu na mawrygu Hedd Wyn ond darlunio dyn cyffredin mewn amgylchiadau erchyll. Anelu at gyfleu'r cyfeillgarwch a'r hiwmor ond hefyd hunlle bywyd milwr. Yn hyn o beth, roedd lluniau Paul Nash yn ysbrydoliaeth. Gyda llaw, fe ges i sgwrs yn ddiweddar ag athro prifysgol am fyth Hedd Wyn a'i ymateb oedd hyn: os yw'r myth yn llwyddo, gad lonydd iddo fe.

Wrth ymchwilio a phori yng ngwefan *Papurau Newydd* y Llyfrgell Genedlaethol fe ddes i ar draws erthygl yn y *Llanelly Star* ar Awst 12, 1916 yn cyfeirio at farwolaeth y Preifat D T Hughes, milwr oedd wedi ei ladd ym Mrwydr y Somme. Roedd yn aelod o'r Gatrawd Gymreig ac wedi gweithio yng Ngwaith Dur Bynea, Llanelli, cyn y rhyfel. Hwn oedd brawd fy nhad-cu, Phil Hughes y teiliwr. Ges i dipyn o ysgytwad a'r dirgelwch i fi oedd nad oedd neb yn y teulu wedi sôn amdano. Tybed wrth sgrifennu'r cerddi fy mod i, yn anymwybodol, yn ceisio coffáu perthynas nad oedd wedi cael coffadwriaeth deilwng? Mae hyn yn awgrymu y gall sawl ffactor ddylanwadu ar greu cerddi.




Y broblem cyn sgrifennu oedd bod cymaint o sylw i Hedd Wyn wedi bod ar y radio, teledu, ar-lein, ac mewn erthyglau, llyfrau ac arddangosfeydd. Yr her felly oedd dod o hyd i 'ongl' ffresh, ffordd newydd o gyfleu ei gymeriad a'i stori.

Rôl pendroni penderfynais y byddai deialog rhwng y milwr a'i gariad yn cyfleu'r agwedd ddynol ac yn rhoi undod i'r dilyniant. Roeddwn wedi darllen rhai o ymsonau dramatig y bardd o'r Alban a'r Bardd Llawryfol, Carol Ann Duffy, ac yn cofio bod y bardd o America, Robin Behn, wedi dweud bod esgus bod yn gymeriad yn nes at y gwir, yn fwy effeithiol na sgrifennu cerdd gofiannol. 'Mae defnyddio masg rhywun arall yn help mawr i ryddhau'r bardd rhag cyfyngiadau'r "hunan",' meddai. Fe benderfynais roi cynnig ar hynny.

Gwaith arall a ddylanwadodd arnaf oedd *In Parenthesis* David Jones a rhaglen radio Bardd Cymru, Ifor ap Glyn, oedd yn cyfeirio at lythyrau dirdynnol ac ysgafn milwyr. Drwy ddarllen, gwylio a gwrando ar ddeunydd am y Rhyfel Byd Cynta, fe geisiais amsugno awyrgylch y ffosydd cyn dechrau sgrifennu.

Gyda llaw, dyma ychydig o sylwadau a nodais ar ymyl y ddalen wrth sgrifennu'r cerddi a gobeithio y byddan nhw'n taflu golau ar y broses:

*Anelu at gyferbyniad, ffosydd/Trawsfynydd, creu cerddi/distryw, caru/lladd.*

*Meddwl am y diwedd cyn sgrifennu'r cyfan. Eiddo Hedd Wyn yn dod nôl. Ymateb y fam a'r cariad.*

*Fframwaith: y milwr a'i gariad bob yn ail. Dim angen defnyddio enwau priod.*

*Cymeriad Hedd Wyn. Yn dawedog, yn dipyn o freuddwydiwr.*

*Cyfleu islif neu isdestun o dan y cerddi, gwastraff rhyfel, dryllio rhamantiaeth.*

*Angen cynildeb ac osgoi bod yn dywyll. Ffin denau rhwng y ddau.*

*Anelu at iaith naturiol nid chwyddedig.*

Yn benodol, wrth sgrifennu pob cerdd fe ofynnais i'r cwestiwn canlynol: pa deimlad sy o dan wyneb y gerdd a pha emosiwn bydd y darllenydd yn ei brofi? Hefyd roedd y canlynol yn procio'r dychymyg: Pa liw yw'r teimlad? Pa fath o anifail? Pa fath o dywydd? Pa fath o gelficyn? Roedd cyngor y bardd Pascale Petit yn fuddiol, hynny yw anelu at ddefnyddio dau synnwyr gwahanol ymhob pennill.

Beth am y diwrnod gwobrwyo? Doedd gyrrwr y bws ddim yn siwr ble oedd yr ysgol ac fe gawsom ein gollwng ger y parc heb sylweddoli pa mor fawr oedd e. Roeddwn i bron â gofyn am gyfarwyddyd mewn siop gornel cyn taro sgwrs â Mair a'i gŵr o Lerpwl oedd ar y ffordd i'r seremoni. Rwy'n cofio trafod pa mor bwysig oedd y seremoni.

Gan fy mod i wedi anghofio'r tocynnau, bu raid sgrifennu neges ar ddarn o bapur cyn cael fy hebrwng i stafell fach lle oedd y trefnydd a'r Archdderwydd. Tipyn o fraint.

Roeddwn i'n nerfus cyn y seremoni ac rwy'n cofio dyn o Ben Llŷn yn fy nghanmol am deithio'r holl ffordd o Ffynnon Taf. Roeddwn i o dan deimlad wrth godi ond fe fydda i'n trysori'r atgofion, gan gynnwys yr Archdderwydd yn llywio'r seremoni'n ddeheuig, y cerddi cyfarch, y côr yn canu, cwrdd â'r cyfeillion o Fflandrys a chytuno i gyfieithu'r dilyniant fel bod modd ei gynnwys yn arddangosfa'r ysgol.

Diolch i'r trefnydd a'r beirniaid a llongyfarchiadau i'r enillwyr eraill. Erbyn hyn, mae'r gadair mewn lle anrhydeddus yn y cyntedd ac ymwelwyr yn rhyfeddu ati.


ON: Mae Martin wedi cyhoeddi cyfrol o straeon byrion, *Yr Awyr yn Troi'n Inc*, ddaeth yn ail yn y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Ynys Môn.

# COFEB Y 'KNIFE ANGEL'

Crewyd y 'Knife Angel' gan yr arlunydd Alfie Bradley fel cofeb genedlaethol yn erbyn trais ac ymddygiad ymosodol. Roedd y cerflun, sydd yn 27 troedfedd o uchder, tu allan i Eglwys Gadeiriol Lerpwl o fis Tachwedd tan ddiwedd mis Ionawr a daeth llawer iawn o bobl i'r Gadeirlan i'w weld. Cofeb i'r rhai sydd wedi cael eu heffeithio gan droseddau'r gyllell oedd bwriad Bradley a chreuodd y gwaith celf ar ben ei hun yng Nganolfan Gwaith Haearn Brydeinig, Telford. Darparodd y Ganolfan fanciau cyllell tra roedd yna amnest genedlaethol am gyllyll yn 2015/2016. Casglwyd 100,000 o gyllyll!



Meddai Dr Sue Jones, Deon Lerpwl: "Yn anffodus, prin y bydd diwrnod yn mynd heibio heb glywed hanes arall o drosedd cyllyll. Trwy ddangos y 'Knife Angel' tu allan i Eglwys Gadeiriol Lerpwl, rydym am ddangos cydymdeimlad â dioddefwyr y drosedd yma a gwneud datganiad pwerus i bawb sy'n dod i ymweld."



*Eryl W. Jones, Dr. Sue Jones a Roger Arden, MBE yn y Ddarlith i'r Gymdeithas ar 28 Ionawr 2019*

